# Cynulliad Cenedlaethol Cymru
# Cyfarfod y Grŵp Trawsbleidiol ar Dai
# 12.30-1.30pm, 21 Mai 2019

Ystafell Bwyllgora A, Tŷ Hywel, Bae Caerdydd

## Yn bresennol

**Mike Hedges AC (Cadeirydd)**
**Ryland Doyle (Swyddfa Mike Hedges AC)**
**David Melding AC**
**Matthew Kennedy (Sefydliad Tai Siartredig Cymru)**
**Ross Thomas (Tai Pawb)**
**Alex Osmond (The Wallich)**
**John Puzey (Shelter Cymru)**
**Michelle Wales (Shelter Cymru)**
**Will Atkinson (Tai Cymunedol Cymru)**
**Victoria Walsh (Bwrdd Hyfforddi'r Diwydiant Adeiladu)**
**Nick Morris (Crisis)**
**Elinor Crouch-Puzey (Cymorth i Ferched Cymru)**
**Matthew Norman (Cymdeithas Landlordiaid Preswyl Cymru)**
**Casey Edwards (Canolfan Cydweithredol Cymru)**
**Tamara Hooper (Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig)**
**Mathew Brindley (Gofal a Thrwsio)**
**Katie Dalton (Cymorth Cymru)**

**Ymddiheuriadau**
**Glenn Page – Mind**
**Neil Howell - Torfaen**
**Ceri Cryer - Age Concern**

**Cofnodion**

**1. Croeso gan y Cadeirydd**

Croesawodd MH yr Aelodau i'r cyfarfod.

Gweithredu blaenorol. Dywedodd JP wrth y grŵp fod uwchgynhadledd yn mynd rhagddi i edrych ar ddiffyg gorfodaeth yn y sector rhentu preifat. Dyma ddilyniant i drafodaeth y grŵp ym mis Ionawr.

**2.** Yr Adolygiad Cartrefi Fforddiadwy - Lynn Pamment, Cadeirydd y panel adolygu annibynnol (gwahoddwyd). Trafodaeth agored ar y canfyddiadau.

Cyflwynodd MH Lynn Pamment a diolchodd iddi am roi o'i hamser i annerch y grŵp. Rhoddodd gefndir i'r adolygiad ac aeth drwy'r chwe maes allweddol. Roedd yr adolygiad yn cynnwys 22 o argymhellion a oedd yn cynnwys dull newydd o ariannu grantiau, gwelliannau i safonau tai, polisi rhent 5 mlynedd a chartrefi fforddiadwy newydd i fod yn ddi-garbon.

Mae'r penawdau a'r adroddiad i'w gweld yma https://llyw.cymru/adolygiad-annibynnol-or-cyflenwad-o-dai-fforddiadwy-adroddiad?_ga=2.24571706.1224645721.1559550649-209943455.1559202891

Dywedodd fod gennym grant cyflenwi tai 58% ar gyfer datblygu ar hyn o bryd, a bod angen mwy o brofi gwerth am arian a pha un a oedd angen y lefel hon o grant ar gyfer pob cynllun. Nododd yr adolygiad hefyd y dylai awdurdodau lleol gael mynediad i'r grant hwn. Cwestiynodd a oedd angen yr holl gynlluniau gwaddol bellach ac a oedd angen adolygiad, er y gallai fod eu hangen i'n helpu i gyrraedd pwynt carbon niwtral.

Cwestiynau

MH A all awdurdodau lleol adeiladu ar yr un raddfa ag o'r blaen?

Gall awdurdodau adeiladu ond collwyd arbenigedd. Bydd cydweithio â chymdeithasau tai ar gyfer partneriaethau effeithiol yn hanfodol.

Roedd DM yn siomedig nad oedd yr adolygiad yn rhoi darlun clir o nifer yr unedau roedd eu hangen. Atebodd LP fod rhai niferoedd wedi'u dyfynnu yn yr adroddiad.

Tynnodd KD sylw at y diffyg fforddiadwyedd i lawer o bobl gan gynnwys pobl ifanc a bod rhai darparwyr llai yn ofni na fyddent yn gallu darparu tai yn y gymuned yn y dyfodol. Efallai bod tuedd at ddarparwyr mwy o faint.

Eglurodd LP nad dyna oedd bwriad yr adolygiad ac y bydd cyllid yn seiliedig ar arwyddion go iawn bod darparwyr yn darparu gwir werth am arian.

Nododd LP fod fforddiadwyedd yn fater pwysig i'r panel a dywedodd os oedd yn rhaid cael cyfaddawd, heb fynd y tu hwnt i'r adnoddau presennol, rhwng cartrefi fforddiadwy neu allbwn, yna dylai'r cyfaddawd fod ar allbwn.

TH A allai dulliau adeiladu modern helpu gydag adeiladu? Yn hytrach na chanolbwyntio ar ddulliau traddodiadol yn unig.

Dywedodd LP fod gwaith da yn digwydd ar ddulliau newydd ond fe'i hatgoffwyd gan denantiaid nad oeddent am fod yn destun arbrawf ar gyfer dulliau newydd.

VC Mae prinder sgiliau adeiladu eisoes - a oedd unrhyw ystyriaeth o hyn yn yr adolygiad? Dywedodd LP fod hyn y tu allan i gylch gwaith yr adolygiad.

Pwysleisiodd LP fod angen i adeiladau newydd ystyried, o'r ddechrau, gynnwys ffitiadau di-garbon, gan fod ôl-osod yn costio mwy.

?? Mae angen asesiad manylach o angen, yn enwedig anghenion penodol yr henoed a'r anabl.

JP Rydym yn gwybod bod yr asesiadau anghenion tai cyfredol yn tanamcangyfrif y gwir angen, a'i bod yn bwysig deall lefelau digartrefedd cudd, ar gyfer cynllunio darpariaeth tai a brwydro yn erbyn agwedd 'nid yn fy ngardd gefn i'.

Diolchodd MH i Lynne am gyflwyno'r canfyddiadau ac am ateb y cwestiynau.

**3. Effaith diwygio lles ar bobl (astudiaethau achos Shelter Cymru)**

Tynnodd JP sylw at nifer o achosion lle'r oedd pobl yn colli neu mewn perygl o golli eu cartrefi oherwydd taliadau credyd cynhwysol hwyr.

Roedd y pwnc wedi cael ei godi gan Caroline Harries AS a ofynnodd i Amber Rudd, y Gweinidog Gwaith a Phensiynau, i gyflymu taliadau budd-dal tai er mwyn atal digartrefedd ac er mwyn rhoi'r gorau i gynyddu dyled bersonol (£355 am fynd ag achos i'r llys) a mynd ag amser y llys.

Hysbysodd WA y grŵp fod angen i bob agwedd ar daliadau credyd cynhwysol wella, nid dim ond yr agwedd budd-dal tai.

Gan fod credyd cynhwysol yn cael ei dalu i un aelod o'r aelwyd, dywedodd ECP fod hyn yn arwain at gam-drin ariannol ac y dylem hefyd ymgyrchu dros daliadau wedi eu rhannu.

Mae'r diffyg rhwng y budd-dal a delir a'r lwfans tai yn achosi caledi parhaus i bobl, a dylai fod yn rhan o unrhyw ymgyrch budd-daliadau parhaus.

WA mae angen i ni feddwl beth fydd ein galwadau unwaith y daw rhewi budd-daliadau i ben yn 2020. A ddylem ni fod yn galw am CPI neu swm ychwanegol i gydnabod y rhewi.

- **GWEITHREDU - WA i ddosbarthu 6 galwad TCC**

**4 Unrhyw Fater Arall**

Gwahoddir holl aelodau'r grŵp i gyfarfod grŵp Cartrefi i Bawb Cymru lle trafodir pynciau ar gyfer cyfarfod y grŵp ym mis Hydref ac unrhyw faterion dilynol yn sgil y cyfarfod heddiw.

**Dyddiad y cyfarfod nesaf**
15 Hydref 2019